- NEW-H2 – Ar hyn o bryd mae Wales and West Utilities yn edrych ar opsiynau posibl i gydweithio â noddwr angen i fwrw ymlaen â'r prosiect.
- Trawsfynydd - ansicrwydd ynghylch yr amserlenni cyflenwi oherwydd y penderfyniadau sy'n ofynnol gan Great British Nuclear a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd.
- Porth Caergybi – datblygu prosiect wedi ei oedi hyd nes y bydd canlyniad trafodaethau masnachol Stena Line gyda'r sector ynni alltraeth.
- Siwdios Kinmel – Mae trafodaethau yn parhau gan fod galw cyfyngedig a chefnogaeth ariannol ar gyfer stiwdios teledu a ffilm newydd.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2025</u>

4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r risgiau gros na gweddilliol y chwarter hwn.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, mae’r proffil risg yn parhau yn uchel gyda nifer o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, caniatáu, oedi ac buddsoddiad.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

## ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4

**Atodiad 2:** Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2025

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Swyddog Monitro:

“Un o brif dasgau'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Is-Bwyllgor ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw.”

### ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 4. Ni fydd gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol.”

# Cynllun Twf Gogledd Cymru Adroddiad Perfformiad Chwarterol

## 2024-25 Chwarter 4 (Ionawr - Mawrth 2025)

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| 02 | Perfformiad y Portffolio | 4 |
| 03 | Perfformiad y Rhaglen Ddigidol | 5 |
| 04 | Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel | 7 |
| 05 | Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo | 10 |
| 06 | Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 13 |
| 07 | Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 15 |
| 08 | Olrhain Cynnydd y Prosiectau | 17 |
| 09 | Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf- Achos Fusnes y Portffolio 2024 | 18 |
| 10 | Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2024) | 19 |
| 11 | Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf | 20 |
| 12 | Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 21 |
| 13 | **Gwireddu** Buddion y Cynllun Twf | 22 |
| | ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf | 23 |

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Roedd y chwarter hwn yn canolbwyntio ar drosglwyddo'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 1af o Ebrill 2025 ynghyd â ffocws clir ar gyflawni'r Cynllun Twf.

Bu i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd gymeradwyo tri achos busnes. Yr Achos Busnes Llawn ar brosiectau Cydnerth a Parc Bryn Cegin a'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol. Fel rhan o gymeradwyo Achos Busnes Anturiaethau Cyfrifol, nododd y bwrdd y gofyniad i Zip World fynd i'r afael â thair agwedd benodol o fewn y tri mis nesaf, sef - darparu Cynllun Buddion Lleol datblygedig yn dilyn ymgysylltu â chymunedau lleol; strategaeth ac egwyddorion gweithredol ar gyfer ei rwydwaith e-fws arfaethedig; ac adroddiad cynnydd ar ei gynllun ymgysylltu.

Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd gais newid prosiect ar gyfer prosiect Glynllifon i gynnwys Hwb Economi Wledig o'r radd flaenaf, datblygiad llaeth cynaliadwy a llaeth defaid Cymru. Bydd agwedd dechnoleg amaeth hefyd, gan gysylltu'r tair elfen er mwyn cyflwyno sgiliau technegol lefel uchel a sylfaen dechnoleg - a fydd ar gael i fusnesau amaeth yn y rhanbarth.

Arwyddwyd cytundeb ariannu £4.43m a fydd yn datgloi buddsoddiad gwerth £19m mewn hyfforddiant o'r radd flaenaf a chyfleusterau trosglwyddo gwybodaeth mewn pum lleoliad yng Ngogledd Cymru. Gyda'r Prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth, a gymeradwywyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru y llynedd, fe welir: rhwydwaith o gyfleusterau o'r radd flaenaf yn ganolog i ddarparu prentisiaethau a chymorth sgiliau arbenigol arall; ymgysylltu'n helaeth â Busnesau Bach a Chanolig a Busnesau Micro, yn ogystal â rhaglen allgymorth gynhwysfawr i ysgolion ar draws y rhanbarth.

Mae'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn symud yn ei flaen yn dda, gyda gwaith adeiladu Plas Coch ar drac i gael ei gwblhau ym mis Mai. Cafodd cais am newid ei gymeradwyo ar gyfer gwaith adnewyddu OpTIC. Roedd y newid o ganlyniad i gostau uwch na'r hyn a ragwelwyd yn y cyfnod Achos Busnes Llawn, ac mae'n arwain at newid bach yn y ddarpariaeth, er na fydd unrhyw effaith ar fuddion nac ar fuddsoddiad y Cynllun Twf. Mae'r gwaith adnewyddu ar safle Henfaes ar gyfer prosiect y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn dal i gadw at yr amserlen.

Daeth y prosiect Ffyniant Gyffredin i ben yn llwyddiannus ar ddiwedd mis Mawrth. Ymhlith y llwyddiannau allweddol oedd lansio Porth Sgiliau Gogledd Cymru, prynu cyfarpar arolwg symudol, dyfarnu grantiau i 16 corff bach a chymunedol yn ogystal â gweithio ar fethodolegau newydd, deunyddiau hyfforddiant a hyfforddi dros 100 o bobl ar fanteision a newid hinsawdd.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i godi cyflymder y gwaith ar y Cynllun Twf a dechreuodd gwaith yn ystod y chwarter ar Adolygiad Portffolio. Bydd y chwarter nesaf yn canolbwyntio ar gyflwyno'r argymhellion o'r adolygiad portffolio i gael penderfyniad gan yr Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd.



**Alwen Williams**

**Cyfarwyddwr Portffolio**
**Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 PERFFORMIAD Y PORTFFOLIO

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Achos Busnes y Portffolio** | | Cafodd diweddariad Achos Busnes y Portffolio 2024 ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Llunnir diweddariad i'r llywodraeth ar ôl cwblhau'r adolygiad portffolio. |
| **Piblinell Cyflawni** | | Mae'r biblinell gyflenwi yn gyson ag Achos Busnes Portffolio 2024, gyda phrosiectau yn adrodd yn erbyn yr amserlen hon ar hyn o bryd. |
| **Llywodraethu** | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau ar waith ar draws yr holl Fyrddau, ac yn cael ei diweddaru'n flynyddol. |
| **Sicrwydd** | | Cwblhawyd pumed adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) ym mis Hydref 2024 ac mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i roi sylw i'r argymhellion. |
| **Adnoddau a Chapasiti** | | Mae trefniadau dros dro ar waith ar gyfer y swydd Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel gydag aelod o staff parhaol newydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Ebrill. Cymeradwywyd y gyllideb i ymestyn contractau staff tymor penodol tu hwnt i fis Mawrth 2026, ac mae'r Cyfarwyddwyr Portffolio a'r Pennaeth Gweithrediadau wrthi'n adolygu'r gofynion o ran adnoddau. |
| **Cyllid** | | Mae cyfanswm o £15.32m o gyllid y Cynllun Twf wedi'i wario hyd yma. Mae hyn yn cynnwys £2.15m ar y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol, £9.81m ar y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, £0.58m ar y Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol, £1m ar y Rhwydwaith Talent Twristiaeth a £1.78m i ariannu'r gwariant refeniw. |
| **Buddsoddiad** | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector gyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar draws y portffolio. Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y Strategaeth Fuddsoddi yn ystod eu cyfarfod ym mis Mawrth 2024. |
| **Risg** | | Mae'r proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn gyson â Chwarter 3. Mae caffael y fframwaith gwasanaethau cefnogi (argymhelliad PAR 2023) wedi'i gwblhau. Mae nifer o risgiau gweddilliol uchel yn parhau sy'n cael eu rheoli gan y PMO gan gynnwys fforddiadwyedd, cydsynio, oedi a buddsoddiad. |
| **Monitro a Gwerthuso Buddion** | | Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gydag Uchelgais Gogledd Cymru ac Arianwyr Prosiect ar sut i ddefnyddio'r platfform Adrodd am Fuddion. Mae'r prosiectau i gyd wedi uwch lwytho eu dangosyddion, mae'r tri phrosiect sydd yn y cam cyflawni wedi poblogi'r platfform gan alluogi timau'r prosiect, rhaglen a phortffolio i olrhain y cynnydd tuag at amcanion a buddion gwario. |
| **Allyriadau a Bioamrywiaeth** | | Mae'r fethodoleg symlach wrthi'n cael ei chwblhau a'i rhannu. Mae trafodaethau ar y gweill i ystyried cefnogi nifer fach o Awdurdodau Lleol fel 'Cynghorau Arloesi' fel ffordd o wreiddio'r fethodoleg. Bu rhai o'n tîm, ynghyd â phartneriaid o'r rhanbarth, yn yr **Hyfforddiant Eglurder Hinsawdd**. Trwy weithdai 'Climate Fresk and Biodiversity Collage', roedd cyfranogwyr yn gallu meithrin gwybodaeth, yn ogystal â dealltwriaeth wirioneddol o heriau ac atebion effeithiol. |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | Cyhoeddwyd nifer o gyhoeddiadau i'r wasg gan gynnwys un ar annog sylwadau ar ymgynghoriad Trafnidiaeth Gyhoeddus Rhanbarth Gogledd Cymru, lansio Porth Sgiliau Gogledd Cymru, croesawu'r cadarnhad i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, prosiectau llwyddiannus yn elwa o gyllid Cynllun Lansio technoleg amaeth a thechnoleg bwyd, cymeradwyo'r Cynllun Busnes Llawn ar gyfer prosiect Cydnerth, arwyddo'r cytundeb ariannu ar gyfer prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth. Fe gyhoeddon ni erthygl astudiaeth achos yn ystod yr Wythnos Merched yn y Byd Adeiladu.<br>Fe fuon ni'n gweithio gyda Business News Wales ar bodlediad ac erthygl i gyd-fynd, yn canolbwyntio ar y flwyddyn sydd i ddod i'r Cynllun Twf, yn ogystal â phodlediad ac erthygl ar y cyfleoedd allai deallusrwydd artiffisial ddod i'r sectorau preifat a chyhoeddus yn y rhanbarth.<br>Parhau i dyfu wnaeth ein gwaith ymgysylltu a'n cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol a fu'n hyrwyddo ein datganiadau i'r wasg. Cafwyd 11k o ddefnyddwyr gweithredol ar ein gwefan (fyny 33.5%, mae'n debyg oherwydd yr ymgynghoriad RTP). |

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

**Targed Creu Swyddi**
**380**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£158m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£41.7m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Paratowyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect 4G+ ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r farchnad yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol.<br>• Mae prosiect LPWAN Campysau Cysylltiedig bellach yn symud tuag at ddefnyddio pyrth yn sgil cytuno ar fanyleb gaffael a derbyn cynllun defnydd cyntaf.<br>• Derbyniwyd canlyniad cychwynnol contractau traws-ranbarthol Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU i ddarparu band llydan gigabit, ac mae effaith hyn ar amcanion gwariant y Cynllun Twf am y % olaf a'r prosiectau Ffibr Llawn wrthi'n cael ei hadolygu. Disgwylir mwy o wybodaeth yn y chwarter nesaf yn ymwneud â cheisiadau am newidiadau y mae Llywodraeth y DU wrthi'n eu hadolygu allai newid cwmpas y safleoedd dan gontract. |



**Cyng. Nia Jeffreys**
**Aelod Arweiniol**



**David Fitzsimon**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Stuart Whitfield**
**Rheolwr Rhaglen**

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | | Gweithredu'r Prosiect | • Cymeradwyo'r achos cyfiawnhad busnes a phrynu offer. | • Prynu eitemau yn ymwneud â cham olaf arian y Cynllun Twf. | | • Yr Achos Cyfiawnhad Busnes Terfynol wedi'i gymeradwyo. |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Contract buddsoddi band eang terfynol Llywodraeth y DU i'w ddyfarnu ar gyfer y rhanbarth. | • Adolygu effaith Prosiect Gigabit ar gynlluniau i fuddsoddi mewn band-llydan rhanbarthol ar amcanion gwariant y Cynllun Twf. | | • Prosiect yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yn y rhanbarth ar fin dechrau yn dilyn caffael presennol ar gyfer ei fframwaith 'traws-ranbarthol'. Bydd canlyniad hyn yn diffinio safle ar gyfer ymyrraeth y Cynllun Twf. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **4G+** | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Achos Busnes Llawn 4G+ i'w gyflwyno ar gyfer adolygiad gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. | • Adolygiad Is-bwyllgor Llesiant Economaidd o Achos Busnes Llawn 4G+. | | • Paratowyd Achos Busnes Llawn 4G+ i'w ystyried gan yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd. |
| | **Ffeibr Llawn** | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Contract buddsoddi band eang terfynol Llywodraeth y DU i'w ddyfarnu ar gyfer y rhanbarth. | • Adolygu effaith Prosiect Gigabit ar gynlluniau i fuddsoddi mewn band-llydan rhanbarthol ar amcanion gwariant y Cynllun Twf. | | • Elfen brosiect yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Adolygu effaith cynlluniau Prosiect Gigabit ar amcanion gwariant y Cynllun Twf. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **Di-wifr Uwch** | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cynllun grant ac Achos Busnes Llawn drafft ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch. | • Adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio o Achos Busnes Llawn prosiect Di-wifr Uwch. | | • Di-wifr Uwch bellach yn datblygu Achos Busnes Llawn. |
| | **LPWAN** | Gweithredu'r Prosiect | • Wedi cwblhau'r fanyleb gaffael ar gyfer cyfarpar y prosiect LPWAN a gwasanaethau gosod.<br>• Cyflwynwyd y cynllun defnydd LoRaWAN cyntaf i Uchelgais Gogledd Cymru cyn ei gyflwyno. | • Caffael pyrth LoRaWAN.<br>• Cyflwyno cynlluniau defnydd cyntaf ar gyfer LoRaWAN. | | • Mae LPWAN yn bwrw ymlaen gyda chynllunio rhwydwaith a pharatoi'r caffael uwch a chyfalaf. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

**Nod y Rhaglen**

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

**Targed Creu Swyddi**
**980**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£530m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£668.5m**


| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Cydnerth** - Cafodd yr Achos Busnes Llawn ei gymeradwyo yn ystod y chwarter.<br>• **Ynni Lleol Blaengar (Cronfa Ynni Glân)** - Mae'r Achos Busnes Llawn drafft wrthi'n cael ei ddatblygu i'w gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen cyn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Portffolio a'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd. |



Cyng. Gary Pritchard
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Meghan Davies
Rheolwr Rhaglen

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Mae'r Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo ac mae'r prosiect yn symud tuag at gael ei weithredu. | • Achos Busnes Llawn wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo.<br>• Prosiect yn symud at y cam cyflawni mewn risg tra bydd y cytundeb ariannu yn cael ei orffen. | • Cwblhau a llofnodi'r Cytundeb Ariannu.<br>• Taliadau defnyddio'r benthyciad. | [Green] | • Mae'r prosiect yn mynd yn dda a disgwylir i'r cytundeb ariannu gael ei lofnodi yn y chwarter nesaf. |
| **NEW-H2**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Yn cael ei adolygu | • Cyfathrebu â Wales & West Utilities (WWU) i annog cyflwyno prosiect diwygiedig.<br>• Wales & West Utilities yn ymgysylltu â phartneriaid prosiect posibl.<br>• Cyfarfod ar y cyd rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a West & Wales Utilities. | • Cadarnhad os yw Wales & West Utilities yn cyflwyno cynnig prosiect newydd i'w ystyried. | [Red] | • Prosiect yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gall tîm y prosiect ddefnyddio'r arian i symud o RIBA 4 i 5 heb fod angen aros am gadarnhad ynghylch arian Porthladdoedd Rhydd Llywodraeth y DU.<br>• Bydd Prifysgol Bangor yn bwrw ati gyda'r gwaith dylunio hwn rŵan. | • Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn.<br>• Cwblhau'r gwaith dylunio.<br>• Cadarnhad arian Porthladdoedd Rhydd Llywodraeth y DU. | [Amber] | • Mae'r prosiect yn oren gyda rhywfaint o waith yn digwydd ar yr Achos Busnes Llawn wrth aros am benderfyniad ynghylch arian Porthladdoedd Rhydd Llywodraeth y DU. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae strategaethau buddsoddi wedi'u cwblhau.<br>• Achos Busnes Llawn wedi'i gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen. | • Cyflwynir yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y Gronfa Ynni Glân i'r Bwrdd Portffolio a'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ym mis Mai. | [Green] | • Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod y datblygiad tuag at yr Achos Busnes Llawn ar drac. |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried opsiynau posibl ar gyfer Safle Trawsfynydd. | • Dim camau gweithredu sylweddol wedi'u cynllunio hyd nes bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd. | [Red] | • Prosiect yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cais ar y cyd rhwng Uchelgais Gogledd Cymru ac EDF i'r Adran Trafnidiaeth (DfT) - ymgynghoriad ar gymorth-daliadau Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy i ddatgloi cytundeb allbwynt Geopura.<br>• £40K DEVEX wedi'i roi i Menter Môn o danwariant Llywodraeth Cymru i ddibenion cynllunio busnes a hyrwyddo.<br>• Trafodaeth barhaus rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn symud yn agosach at ganlyniad i sicrhau a throsglwyddo cronfeydd gwerth £4.8m yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net. | • Cadarnhad posibl o ran RTFO gan DfT<br>• Cadarnhad posib gan DESNZ o ran £4.8m<br>• Uchelgais Gogledd Cymru a Menter Môn yn hyrwyddo'r prosiect mewn digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a denu allbwyntiau.<br>• Edrych ar is-gronfa hydrogen er mwyn gallu datblygu hydrogen yng Ngogledd Cymru i gefnogi cyfleuster cynhyrchu trafnidiaeth Hwb Hydrogen Caergybi. | | • Mae'r statws RAG yn parhau i fod yn ambr tra bydd materion allweddol sy'n weddill yn cael eu datrys. Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, Adran Trafnidiaeth; Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net £4.8m; is-gronfa hydrogen. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

## Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

**Targed Creu Swyddi**
**2280**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£129bn**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£355.4m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Neuadd Warren, Brychdyn -** Mae Llywodraeth Cymru a'u hymgynghorwyr yn trafod adroddiad cydymffurfio diogelwch maes awyr drafft Neuadd Warren gydag Airbus UK. Mae'r adroddiad wedi bod yn destun ymarferiad ymgynghori efo Airbus ac mae'r drafft yn symud at fod yn ddrafft cytunedig a fydd yn cael ei rannu efo Airbus i'w gymeradwyo'n ffurfiol.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam** - Bydd WSP yn darparu casgliadau cynnar asesiad Lite Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ac yn cyflwyno adroddiad terfynol ym mis Mai 2025.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** - Ni chwblhawyd cytundeb S106 yn Chwarter 1 yn 2025. Mae trafodaethau yn parhau rhwng y Cyngor a Jones Bros. Mae'r trafodaethau ar y cytundeb ariannu gyda Jones Bros a'r ddogfen yn agos at gyrraedd drafft terfynol cytunedig.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Cafodd Achos Busnes Llawn y Prosiect ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2025 a chafwyd caniatâd cynllunio llawn ym mis Mawrth. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Asesiad WelTAG Lite wedi parhau gydag adroddiad i'w gyhoeddi ym mis Mai 2025. | • Cyflwyno adroddiad Lite WelTAG gan WSP gydag argymhelliad ynghylch sut i fwrw ymlaen gydag elfen cysylltedd priffyrdd prosiect Porth y Gorllewin. | | • Newidiwyd graddfa risg y prosiect i oren nes bydd adroddiad Lite WelTAG Cymru wedi'i gyhoeddi ar fynediad i'r prif gefnffyrdd a'r gallu i liniaru twf drwy deithio actif a newid dulliau teithio. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Llywodraeth Cymru, eu hymgynghorwyr ac Airbus UK yn cytuno ar gynnwys yr adroddiad drafft. Yna caiff y drafft terfynol ei rannu'n ffurfiol efo Airbus UK i'w gymeradwyo. | • Airbus UK wedi cymeradwyo adroddiad ymgynghorydd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol. | | • Mae sgôr risg y prosiect yn dal yn ambr gan nad yw adolygiad achos diogelwch y maes awyr wedi cael ei asesu a'i gytuno'n llawn gan Airbus UK eto. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Mae'r Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo ac mae'r Prosiect yn symud tuag at gael ei weithredu. | • Cytundeb ariannu Rownd 3 Ffyniant Bro wedi'i rannu â Jones Bros am sylwadau a chytundeb.<br>• Cytundeb Adran106 yn dal i wneud cynnydd araf.<br>• Mae trafodaethau ynghylch cytundeb cyllid grant wedi ail-gychwyn a disgwylir y bydd cytundeb ar ddrafft cyflawn yn fuan.<br>• Derbyniwyd adroddiad y Swyddfa Brisio Ranbarthol ar gyfer gwerth trosglwyddo'r safle o Gyngor Sir Ddinbych i Jones Bros. | • Cyfeiriad Cefnogaeth Cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w gofrestru ar wefan yr Awdurdod.<br>• Cwblhau'r cytundeb ariannu gyda Jones Bros.<br>• Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros i gymeradwyo Adran106.<br>• Gwaith adeiladu ysguboriau i ystlumiaid gan ddefnyddio arian Cronfa Ffyniant Bro sydd wedi'i ryddhau'n gynnar gan Gyngor Sir Ddinbych. | | • Sgôr risg y prosiect wedi newid i ambr oherwydd cynnydd araf gyda Chytundeb Adran106. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Mae'r Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo ac mae'r Prosiect yn symud tuag at gael ei weithredu. | • Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo ym mis Chwefror 2025.<br>• Cafwyd caniatâd cynllunio llawn ym mis Mawrth 2025. | • Hysbysiad llawn o gyfeiriad Cymorth Cymhorthdal.<br>• Cwblhau'r Cytundeb Cyd-fenter<br>• Cychwyn Gwahoddiad i Dendro | | • Cadw graddfa'r risg yn wyrdd ar gyfer y prosiect gan ei fod ar y trywydd i'w gyflwyno yn yr Haf 2025. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Stena wedi gofyn am oedi datblygiad y prosiect tra'n disgwyl am ganlyniad eu trafodaethau masnachol gyda'r sector ynni ar y môr. | • Sgwrs barhaus â Stena bellach ar lefel uwch. | | • Mae'r sgôr risg yn dal yn goch gan fod angen cwblhau trafodaethau â defnyddiwr terfynol ardaloedd porthladd newydd cyn symud ymlaen. |
| **Stiwdios Kinmel** | Mae'r Prosiect yn cael ei adolygu | • Mae trafodaethau gyda'r cyn Reolwr Gyfarwyddwr wedi cadarnhau mai prin yw'r galw a'r cymorth ariannol o ran stiwdios Teledu a Ffilm newydd. Mae hyn wedi'i gadarnhau gan ymchwiliad ar wahân gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Cyngor. | • Prosiect yn cael ei adolygu | | • Prosiect yn cael ei adolygu.<br>• Mae'r sgôr risg yn aros yn goch o ystyried yr wybodaeth mai prin yw'r galw am ofod Teledu a Stiwdio. |
| **Porth Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r Tîm Ymgynghoriaeth wedi cyflwyno pecyn cynllunio cyn-ymgeisio i'r Awdurdod Lleol. | • Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol gan y Cyngor.<br>• Cyflwyno cais Cynllunio Amlinellol. | | • Graddfa risg yn wyrdd wrth i'r prosiect symud ymlaen i gam Achos Busnes/Cynllunio Amlinellol. |



**Cyng. Jason McLellan**
**Aelod Arweiniol**



**Andrew Farrow**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen**

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

## Nod y Rhaglen

Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn uchafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cyfleusterau cefnogol i sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau i ragori ac i fod gyda'r gorau yn y byd. Bydd y Rhaglen hefyd yn sicrhau ffyniant drwy fanteisio i'r eithaf mewn modd cynaliadwy ar ein hamgylchedd a'n tirwedd.

**Targed Creu Swyddi**
**380**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£281m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£41.3m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
| --- | --- |
| | • Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol ar 14 Chwefror 2025. Mae'r Bwrdd wedi gofyn am adroddiad pellach i fynd i'r afael â thri phryder penodol cyn gwahodd Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol, ac yn gwahodd y cwmni i roi sylw i'r rhain o fewn cyfnod o 3 mis.<br>• Cwblhawyd Cytundeb Ariannu Grant Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn hwyr ym mis Ionawr 2025. Mae'r prosiect wedi cyrraedd y cam cyflwyno, gyda'r gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen yn dda ym Mhortmeirion a Zip World. Cyflwynwyd y cais cyntaf am arian sydd wedi'i gymeradwyo'n llwyddiannus. Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi adnabod mai Theatr Clwyd yw darn olaf y rhwydwaith. Hefyd, cyflwynwyd drafft cyntaf yr Achos Cyfiawnhad Busnes i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ar ddiwedd mis Mawrth. Sicrhawyd cytundebau allweddol, gan gynnwys Memorandwm Dealltwriaeth gyda Snowdonia Hospitality and Leisure a chytundeb cefn wrth gefn efo Portmeirion.<br>• Cyflwynodd Hwb Economi Wledig Glynllifon y cais am newid i'r Bwrdd Uchelgais, a gymeradwywyd ar 14 Chwefror 2025. Mae'r tîm prosiect wrthi'n drafftio dau Achos Cyfiawnhad Busnes, un ar gyfer pob llaethdy a chaiff yr Achos Busnes Llawn ei ddiweddaru i ddangos cwmpas diwygiedig yr Hwb. Mae angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer yr Hwb. |





Cyng. Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hwb Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu Achosion Cyfiawnhad Busnes Llawn a diweddaru'r Achos Busnes Llawn. | • Cyflwynodd tîm y prosiect y gwaith o ail-gwmpasu'r prosiect i'r Bwrdd Uchelgais, a chymeradwywyd hyn.<br>• Rhyddhawyd arian mewnol i fwrw ati gyda'r cam dylunio.<br>• Cais cyn gynllunio wedi'i gyflwyno am yr Hwb. | • Cyflwyno dau Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfennau newydd y prosiect -<br>1. Llaethdy Llaeth Defaid<br>2. Llaeth Cynaliadwy<br>• Diweddaru'r Achos Busnes Llawn ar gyfer yr Hwb Wledig<br>• Cyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer yr Hwb<br>• Dechrau'r broses gaffael. | | • Sgôr oren oherwydd cymeradwyo'r cais am newid i'r prosiect, dyma'r prif risgiau sydd wedi'u nodi:<br>1. Cynllunio ar gyfer yr Hwb Y Broses Gaffael<br>2. Goblygiadau Ariannol costau cynyddol.<br>• Amserlenni |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Gweithredu'r Prosiect | • Llofnodwyd a chwblhawyd y Cytundeb Ariannu Grant.<br>• Wedi symud i'r cam cyflwyno gyda'r gwaith adeiladu yn mynd yn dda ym Mhortmeirion a Zip World. Wedi cadarnhau mai Theatr Clwyd yw'r darn olaf - cyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes i'r Swyddfa Rheoli Portffolio.<br>• Lansio tawel (soft launch) yr ail-frandio gan Grŵp Llandrillo Menai.<br>• Arwyddodd Snowdonia Hospitality and Leisure Femorandwm Dealltwriaeth efo Grŵp Llandrillo-Menai.<br>• Cyflwynwyd a chymeradwywyd y cais cyntaf. | • Ceisio cymeradwyaeth i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Theatr Clwyd fel y darn olaf.<br>• Cyflwyno o leiaf dau gais.<br>• Lansio brandio newydd yn swyddogol - Academi Croeso.<br>• Parhau i weithio gyda'r is-ganolfan arfaethedig cyn gwneud y penderfyniad terfynol a chyflwyno cais am newid. | | • Sgôr gwyrdd oherwydd bod y Cytundeb Ariannu Grant wedi cael sêl bendith a bod y prosiect wedi symud i'r cam cyflawni. |
| **Anturiaethau Cyfrifol**<br>ZipWorld | Datblygu'r Achos Busnes Llawn. | • Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol gan y Bwrdd Uchelgais, gyda'r angen i Zip World roi sylw i'r tri gofyniad cyn cyflwyno'r Achos Busnes Llawn.<br>• Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cynghorwyr Lleol, Zip World ac Uchelgais Gogledd Cymru (digwydd yn fisol)<br>• Mae'r problemau a godwyd o ganlyniad i'r cais cynllunio am y siglen am gael sylw.<br>• Ceisiadau cyn-gynllunio ar gyfer y Fforiwr llechi a'r car cebl ar safle Llechwedd.<br>• Ymateb cyn-gynllunio wedi dod i law ar gyfer y Car Cebl - wedi dechrau cyflawni yn erbyn y gofynion. | • Cyflwyno ar y tri gofyniad i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.<br>• Cyfarfodydd misol gyda chynghorwyr lleol<br>• Sefydlu a chyfarfod cyntaf gweithgor eBUS<br>• Penodi hwylusydd i weithio gyda Zip a'r gymuned<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br>• Cymeradwyo cynllunio ar gyfer y siglen<br>• Adborth ar gais cyn-gynllunio ar gyfer Fforiwr Llechi,<br>• Cyflwyno ceisiadau cynllunio llawn ar gyfer y ddwy antur ar safle Llechwedd. | | • Graddfa oren yn bennaf oherwydd y risg gynllunio a diffyg ymgysylltu â'r gymuned, ond gwnaed cynnydd da gyda'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gymeradwyo a'r cynnig i roi sylw i'r tri gofyniad. |

# 07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

## Nod y Rhaglen

Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

**Targed Creu Swyddi**
**180**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£114m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£39.5m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn symud yn ei flaen yn dda, gyda gwaith adeiladu Plas Coch ar drac i gael ei gwblhau erbyn mis Mai. Mae cais am newid, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd y Rhaglen, wedi addasu'r dull gweithredu ar gyfer gwaith adnewyddu OpTIC oherwydd costau cynyddol. Cwblhawyd y broses gaffael ar gyfer offer Plas Coch, gan arwain at gyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes drafft cyntaf i'w adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. Hefyd, mae angen caniatâd cynllunio bellach ar gyfer adleoli'r hwb hydrogen.<br>• Mae'r prosiect ar gyfer y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn symud yn ei flaen yn dda, gyda gwaith adeiladu Henfaes ar drac i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill. Cymeradwywyd y gwaith caffael ar gyfer ail gam yr offer, er na lwyddwyd i gaffael pob eitem. Cyflwynwyd y cais cyntaf am arian i'w adolygu. |



Cyng. David Hughes
Aelod Arweiniol



Tony Ward
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)


# 07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Wrecsam | Cyflawni Prosiect | • Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cymeradwyo'r cais am newid i waith adnewyddu OpTIC.<br>• Gweithgarwch caffael ar gyfer offer Plas Coch.<br>• Cyflwynwyd drafft Cyntaf yr Achos Cyfiawnhad Busnes i'r Swyddfa Rheoli Portffolio.<br>• Camau gwella bioamrywiaeth wedi digwydd ar safle Llaneurgain.<br>• Cyflawni ac adrodd ar fanteision. | • Cymeradwyaeth derfynol i ddyfarnu'r tendr ar gyfer offer Plas Coch.<br>• Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes.<br>• Rhoi cymeradwyaeth derfynol i gais newid OpTIC.<br>• Cwblhau gwaith adeiladu Plas Coch - lansio tawel i randdeiliaid mewnol.<br>• Gweithgaredd cyfathrebu i ganolbwyntio ar y camau cwblhau, bioamrywiaeth a gweithgaredd gwerth cymdeithasol. | | • Prosiect yn cael ei gyflwyno ac ar y trywydd iawn |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Cyflawni Prosiect | • Mae'r cynnydd ar safle Henfaes bron wedi ei orffen.<br>• Proses gaffael ar gyfer offer yn yr ail gam wedi'i chynnal a'i chymeradwyo. Rhai eitemau bellach wedi'u tendro'n llwyddiannus - angen mwy o waith.<br>• Cyflwynwyd y cais cyntaf.<br>• Cyflawni ac adrodd ar fanteision. | • Cwblhau gwaith adnewyddu Henfaes.<br>• Gweithgarwch caffael i gloi ar gyfer eitemau.<br>• Drafftio cais posibl am newid yn sgil tanwario - ail-broffilio a gorffen y broses gaffael cyn y drafft. | | • Prosiect yn cael ei gyflwyno ac ar y trywydd iawn |

# 08 OL-RHAIN CYNNYDD Y PROSIECTAU

| Prosiect | | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllunio llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | 4G+ | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| | Ffibr Llawn | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | LPWAN | Dim angen caniatâd | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| | Do-wifr uwch | Dim gofynion caniatâd ar lefel y cynllun grant | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Cydnerth (Morlais) | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Trawsfynydd | | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Egni | | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | | Dim gofynion caniatâd ar lefel y gronfa | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| NEW-H2 | | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Hwb Hydrogen Caergybi | | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Stiwdio Kinmel | | 🕒 | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Porth Wrecsam | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Anturiaethau Cyfrifol | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

# 09 PIBLINELL CYFLAWNI PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF




| | | 2021–2027 | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig - 4G+ | | Maw-24 | Ebr-25 | Maw-30 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig - Ffibr Llawn | Amserlen y prosiect dan adolygiad | Maw-25 | Mai-26 | Rhag-27 |
| | Campysau Cysylltiedig - Diwifr Uwch | | Medi-24 | Gorff-25 | Rhag-28 |
| | Campysau Cysylltiedig - LPWAN (BJC) | | Gorff-24 | Hyd-24 | Rhag-27 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | | Gorff-24 | Maw-25 | Maw-26 |
| | Egni | | Rhag-23 | Awst-25 | Tach-26 |
| | Trawsfynydd | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Amserlen y prosiect dan adolygiad | Meh-25 | Ion-29 | Mai-30 |
| | Ynni Lleol Blaengar | | Maw-23 | Awst-25 | Awst-29 |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | Prosiect wedi dynnu nol | | | |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | | Maw-25 | Ebr-26 | Ebr-28 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | | Maw-26 | Maw-27 | Ebr-28 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | | Ion-24 | Ion-25 | Meh-26 |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | | Rhag-24 | Jully 25 | Meh-26 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | | Hyd-26 | Medi-27 | Awst-29 |
| | Porth Wrecsam | | Meh-25 | Medi-26 | Maw-28 |
| | Stiwdio Kinmel | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | Maw-24 | Hyd-24 | Meh-25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | Ebr-22 | Maw-24 | Rhag-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | Hyd-23 | Chwef-25 | Awst-26 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | | Chwef-25 | Hyd-25 | Hyd-26 |

Cyfnod Datblygu a Chymeradwyo Achos Busnes (Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol cyn caffael)
Cam Caffael a Chyflawni Prosiect (Yn cynnwys cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar ôl caffael)
Dechrau ar y Safle
Cyfnod Gweithredol a Gwireddu Manteision

# 10 TRACIWR AMCANION – TROSOLWG O GYFLAWNI

| | | | Targedau Achos Fusnes Portffolio 2024 | | **Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd** | | | Gwir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Swyddi a grëwyd (net)** | **(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*** | OBC/ FBC** | **Swyddi a grëwyd (net)** | **(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*** | **Swyddi a grëwyd (net)** | **(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*** |
| Digidol | **Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)** | | 33 | 2.96 | FBC | 33 | 2.96 | 19 | 2.33 |
| | **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf** | | 133 | 4.17 | OBC | 130 | 4..17 | n/a | n/a |
| | **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig** | 82 | 10.04 | OBC n/a | TBC at FBC | n/a | n/a | 0 | 0 |
| | | 35 | 35 | | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Campysau Cysylltiedig** | 20 | 39.04 | BJC OBC | 20 | 1.14 | 0 | 0 | 0 |
| | | 165 | 165 | | 130 | 20 | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | **Cydnerth (Morlais)** | | 233 | 13.87 | FBC | 230 | 16 | n/a | n/a |
| | **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth** | | 88 | 130.00 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Egni** | | 49 | 3.94 | OBC | 49 | 3.94 | n/a | n/a |
| | **Ynni Lleol Blaengar** | | 177 | 102.00 | OBC | 174 | 106.0 | n/a | 0.00 |
| | **Trawsfynydd** | | 111 | 244.12 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Hwb Hydrogen Caergybi** | | 20 | 28.77 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Prosiect wedi dynnu nol** | | 33 | 31.64 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | **Porth y Gorllewin, Wrecsam** | | 360 | 43.36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Warren Hall, Brychdyn** | | 445 | 69.76 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** | | 70 | 94.70 | FBC | 70 | 107.0 | 0 | 0 |
